Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
—
Public Accounts and Public Administration Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
Llywodraeth Cymru

10 Chwefror 2022

Annwyl Weinidog

Fframwaith Cyffredin Dros Dro: Taliadau hwyr

Fel y gwyddoch o lythyr dyddiedig 17 Ionawr fy nghydweithiwr Paul Davies, cytunwyd y byddai’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn trafod y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Daliadau Hwyr.

Bu'r Pwyllgor yn trafod y fframwaith yn y Pwyllgor ar 9 Chwefror ac yn ceisio'r wybodaeth a ganlyn er mwyn helpu i lywio unrhyw argymhellion y gallwn ddymuno eu gwneud yn y dyfodol ar gynnwys terfynol y fframwaith.

Cyffredinol

1. Pam mae angen fframwaith ar gyfer cyfraith taliadau hwyr a sut y bydd yn cysylltu â'r fframwaith ar gaffael cyhoeddus?

Gwneud penderfyniadau

2. Mae'r fframwaith yn nodi y bydd llywodraethau'n ceisio cynnal sefyllfa deg ar draws y corff presennol o ddeddfwriaeth taliadau hwyr. Yn eich barn chi, a yw’r fframweithiau'n rhoi cyfle priodol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd lunio cyfraith a pholisi ar gyfer Cymru?

3. A fydd y fframwaith yn cael unrhyw effaith ar ddeddfwriaeth neu bolisïau presennol Cymru, neu ar ei deddfwriaeth neu ei pholisïau yn y dyfodol?

4. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi cynlluniau ar gyfer newidiadau i gyfraith caffael sy'n ymwneud â thaliadau hwyr mewn ymateb i'w hymgynghoriad ar Drawsnewid Caffael Cyhoeddus. A fydd y newidiadau hyn yn cael eu hystyried drwy'r fframwaith hwn?

5. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r newidiadau hyn gael eu cymhwyso i gaffael datganoledig yng Nghymru?

6. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau i alluogi cyfraith yr UE a ddargedwir i gael ei diwygio a'i diddymu'n gyflymach. A fyddai unrhyw newidiadau o'r fath i gyfraith yr UE a ddargedwir ar daliadau hwyr yn cael eu hystyried drwy'r fframwaith, ac (os felly) sut?

Rhwymedigaethau rhyngwladol

7. Pa rwymedigaethau rhyngwladol sy'n berthnasol i'r fframwaith hwn a sut mae'r fframwaith yn ystyried rhwymedigaethau rhyngwladol?

8. Os bydd angen diwygio'r fframwaith yn y dyfodol i adlewyrchu rhwymedigaeth ryngwladol newydd, pa broses ddiwygio fyddai'n cael ei defnyddio?

Deddf Marchnad Fewnol y DU

9. Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU yn awgrymu bod y fframwaith hwn yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU. A allwch roi amlinelliad o effaith y Ddeddf ar y fframwaith ac a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ceisio eithriad o'r Ddeddf yn y maes fframwaith hwn?

Llywodraethu a datrys anghydfodau

10. A ydych chi'n ystyried bod y system datrys anghydfod yn ddigon cadarn i ateb y diben arfaethedig?

11. Mae'r fframwaith yn darparu ar gyfer atal camau gweithredu sy'n destun anghydfod tra bod y broses datrys anghydfodau yn parhau. A ydych o'r farn bod hyn yn peri unrhyw risg ar gyfer arfer cymhwysedd datganoledig?

Tryloywder ac atebolrwydd

12. A wnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu ag unrhyw randdeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu'r fframwaith dros dro? Sut mae'r fframwaith dros dro yn adlewyrchu ymateb rhanddeiliaid?

13. Sut bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframwaith ac yn cyfrannu at y broses adolygu a diwygio ar gyfer y fframwaith?

14. Mae'r fframwaith yn nodi y bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol, ac yna y bydd yn cael ei adolygu un flwyddyn ar ôl i'r fersiwn derfynol gael ei chymeradwyo, a phob tair blynedd ar ôl hynny (tudalen 12). Pa un o'r rhain sy'n gywir?

15. Os bydd newidiadau yn y dyfodol, sut y bydd y Senedd yn cael gwybod amdanynt? Pa weithdrefn graffu a gaiff ei defnyddio mewn perthynas â'r newidiadau?

Edrychaf ymlaen at eich ymateb cynnar i alluogi'r Pwyllgor i ystyried y materion ymhellach ac ymateb cyn y dyddiad cau ym mis Mawrth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Diolch

Cofion

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor